
Safonau hyfedredd

Therapyddion galwedigaethol

Cynnwys

Rhagair	1
Cyflwyniad	2
Safonau hyfedredd	6

Rhagair

Cyhoeddodd ni safonau hyfedredd ar gyfer therapyddion galwedigaethol yn gyntaf pan agorwyd ein Cofrestr yng Ngorffennaf 2003. Cyhoeddodd ni safonau diwygiedig yn 2007. Rydym yn adolygu'r safonau'n rheolaidd i weld sut maent yn gweithio ac i gadarnhau a ydynt yn parhau i adlewyrchu arfer cyfredol yn y proffesiynau rydym yn eu rheoleiddio.

Y safonau diwygiedig newydd hyn yw canlyniad ein hadolygiad diweddaraf o'r safonau hyfedredd. O ganlyniad i gam cyntaf yr adolygiad, a chanlyniadau ymgynghoriad cyhoeddus, rydym wedi diwygio'n safonau generig sy'n gymwys i'r holl broffesiynau rydym yn eu rheoleiddio. Seilir y safonau diwygiedig erbyn hyn o amgylch 15 datganiad generig. Mae'r strwythur newydd hwn yn golygu y gallwn gadw'r safonau sy'n cael eu rhannu ar draws yr holl broffesiynau rydym yn eu rheoleiddio, wrth ganiatáu rhagor o hyblygrwydd i ni wrth ddisgrifio'r safonau manwl sy'n benodol i broffesiynau unigol.

Datblygwyd y safonau penodol i'r proffesiwn ar gyfer therapyddion galwedigaethol sydd yn y ddogfen hon gyda mewnbwn y cyrff proffesiynol perthnasol a barn pob rhanddeiliad yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus pellach. Cynhyrchodd y broses adolygu a'r ymgynghoriad adborth gwerthfawr ac rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i'n helpu i lunio'r safonau newydd.

Rydym wedi gwneud nifer fach o newidiadau i'r safonau yn gyffredinol, a hynny'n bennaf er mwyn adlewyrchu datblygiadau mewn addysg ac arfer, i egluro ein bwriadau ac i gywiro unrhyw wallau neu ddiffygion. Rydym hefyd wedi gwneud ambell i fân newid i'r cyflwyniad, yn benodol, i esbonio'r iaith rydym yn ei defnyddio yn y safonau.

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r safonau hyfedredd. Mae'r safonau hyn yn pennu arfer diogel ac effeithiol yn y proffesiynau rydym yn eu rheoleiddio. Safonau trothwy ydynt y credwn eu bod yn angenrheidiol i amddiffyn aelodau'r cyhoedd. Maent yn pennu'r hyn y mae'n rhaid i fyfyrwr ei wybod, ei ddeall a gallu ei wneud erbyn cwblhau ei hyfforddiant, er mwyn gallu gwneud cais i gofrestru gyda ni. Pan fyddwch ar ein Cofrestr rhaid i chi fodloni'r safonau hyfedredd hynny sy'n ymwneud â'r meysydd rydych yn gweithio ynddynt.

Yn ogystal rydym yn disgwyl i chi barchu'n safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg a safonau ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Cyhoeddwn y rhain mewn dogfennau ar wahân, a welwch ar ein gwefan.

Mae'r safonau hyfedredd yn y ddogfen hon yn cynnwys elfennau generig, sy'n berthnasol i bawb sydd ar ein Cofrestr, ac elfennau sy'n benodol i broffesiwn, sy'n berthnasol i aelodau cofrestredig sy'n perthyn i un o'r proffesiynau rydym yn eu rheoleiddio ar hyn o bryd. Ysgrifennir y safonau generig mewn teip **tywyll**, ac ysgrifennir y safonau sy'n benodol i'r proffesiwn mewn testun plaen.

Rydym wedi rhifo'r safonau er mwyn i chi allu cyfeirio atynt yn haws. Nid yw'r safonau'n hierarchaidd ac maent i gyd yr un mor bwysig i ymarfer.

Nodyn ynghylch ein disgwyliadau ohonoch chi

Rhaid i chi fodloni'r holl safonau hyfedredd i gofrestru gyda ni a bodloni'r safonau sy'n berthnasol i gwmpas eich ymarfer i barhau'n gofrestredig gyda ni.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen ac yn deall y ddogfen hon. Os bydd amheuaeth yn cael ei bwrw ar eich arfer byddwn yn ystyried y safonau hyn (a'n safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg) wrth benderfynu pa gamau, os oes rhai, y mae angen i ni eu cymryd.

Mae'r safonau a bennir yn y ddogfen hon yn cydategu gwybodaeth a chanllawiau a gyhoeddir gan gyrff eraill, fel eich corff proffesiynol neu'ch cyflogwr. Rydym yn cydnabod y rôl werthfawr a chwaraeir gan gyrff proffesiynol wrth ddarparu canllawiau a chynghor am arfer da a all eich helpu i fodloni'r safonau yn y ddogfen hon.

Cwmpas eich ymarfer

Cwmpas eich ymarfer yw maes neu feysydd eich proffesiwn y mae gennych yr wybodaeth, sgiliau a phrofiad ynddo i ymarfer yn gyfreithlon, yn ddiogel ac yn effeithiol, mewn ffordd sy'n diwallu'n safonau ni ac nad yw'n peri unrhyw berygl i'r cyhoedd nac i'ch hunan.

Cydnabyddwn y bydd cwmpas ymarfer aelod cofrestredig yn newid dros amser a bod ymarfer aelodau profiadol yn aml yn magu ffocws penodol ac yn mynd yn fwy arbenigol nag ymarfer cydweithwyr sydd newydd ymuno â'r gofrestr. Gall hyn fod o ganlyniad i arbenigo mewn maes penodol neu o fewn grŵp cleientiaid arbennig, neu symudiad i rolau rheoli, addysg neu ymchwil. Bob tro y byddwch yn adnewyddu'ch cofrestriad, gofynnir i chi lofnodi datganiad eich bod yn parhau i fodloni'r safonau hyfedredd sy'n berthnasol i gwmpas eich ymarfer.

Gall cwmpas penodol eich ymarfer chi olygu na allwch barhau i ddangos eich bod yn bodloni'r holl safonau sy'n berthnasol i'ch proffesiwn cyfan. Ar yr amod y gwnewch yn siŵr eich bod yn ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol o fewn cwmpas penodol eich ymarfer ac nad ydych yn ymarfer yn y meysydd lle nad ydych yn hyfedr i'w gwneud, ni fydd hyn yn broblem. Os dymunwch symud tu allan i gwmpas eich ymarfer, dylech fod yn sicr eich bod yn gallu gweithio'n gyfreithlon, yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae hyn yn golygu bod rhaid i chi ddefnyddio'ch barn bersonol drwy ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant angenrheidiol neu ennill profiad, cyn symud i mewn i faes ymarfer newydd.

Bodloni'r safonau

Mae'n bwysig eich bod yn bodloni'n safonau ac yn gallu ymarfer yn gyfreithlon, yn ddiogel ac yn effeithiol. Fodd bynnag, nid ydym yn pennu sut y dylech fodloni'n safonau. Fel arfer mae mwy nag un ffordd o fodloni pob safon ac efallai y bydd eich dull o fodloni'n safonau yn newid dros amser oherwydd gwelliannau mewn technoleg neu newidiadau yneich arfer chi.

Cawn geisiadau yn aml oddi wrth aelodau cofrestredig sy'n pryderu y gallai rhywbeth y gofynnwyd iddynt ei wneud, polisi neu'r ffordd maent yn gweithio olygu na allant fodloni'n safonau. Yn aml maent yn poeni y gallai hyn effeithio ar eu cofrestriad.

Fel gweithiwr proffesiynol ymreolaethol, mae'n rhaid i chi wneud penderfyniadau gwybodus, rhesymedig am eich ymarfer er mwyn sicrhau eich bod yn bodloni'r safonau sy'n berthnasol i chi. Mae hyn yn cynnwys gofyn am gyngor a chymorth gan ddarparwyr addysg, cyflogwyr, cydweithwyr, cyrff proffesiynol, undebau ac eraill i sicrhau bod lles defnyddwyr gwasanaethau yn cael ei ddiogelu ar bob adeg. Felly cyn belled ag y gwnewch hyn ac y gallwch gyfiawnhau'ch penderfyniadau os gofynnir, mae'n annhebygol iawn na fyddwch yn bodloni'n safonau.

laith

Cydnabyddwn fod ein haelodau cofrestredig yn gweithio mewn amrediad o gyd-destunau gwahanol, sy'n cynnwys ymarfer uniongyrchol, rheoli, addysg, ymchwil a rolau mewn diwydiant. Cydnabyddwn hefyd y gall defnydd terminoleg fod yn fater dadleuol.

Mae ein haelodau cofrestredig yn gweithio gyda phobl wahanol iawn ac yn defnyddio termau gwahanol i ddisgrifio'r grwpiau sy'n defnyddio eu gwasanaethau neu yr effeithir arnynt. Mae rhai o'n haelodau cofrestredig yn gweithio gyda chleifion, eraill gyda chleientiaid ac eraill gyda defnyddwyr gwasanaeth. Bydd y termau a ddefnyddiwyd yn dibynnu ar sut a ble rydych yn gweithio. Rydym wedi defnyddio termau yn y safonau hyn y credwn eu bod yn adlewyrchu orau y grwpiau rydych yn gweithio gyda hwy.

Yn y safonau hyfedredd, defnyddiwn eiriau fel 'deall', 'gwybod', a 'gallu'. Mae hyn fel bod y safonau yn aros yn berthnasol i aelodau cofrestredig presennol wrth gynnal eu haddasrwydd i ymarfer, yn ogystal â darpar aelodau sydd heb ddechrau ymarfer eto ac sy'n gwneud cais i gofrestru am y tro cyntaf.

Gall y safonau hyn newid yn y dyfodol

Rydym wedi cynhyrchu'r safonau hyn ar ôl siarad â'n rhanddeiliaid a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol.

Byddwn yn parhau i wrando ar ein rhanddeiliaid a byddwn yn cadw llygad ar ein safonau yn gyson. Gan hynny, mae'n bosibl y gwnawn newidiadau pellach yny dyfodol i gymryd newidiadau mewn arfer i ystyriaeth.

Byddwn bob amser yn tynnu sylw at unrhyw newidiadau a wnawn i'r safonau drwy, er enghraifft, cyhoeddi hysbysiadau ar ein gwefan a rhoi gwybod i gyrff proffesiynol.

Safonau hyfedredd

Rhaid i therapyddion galwedigaethol cofrestredig:

1 gallu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol o fewn cwrpas eu hymarfer

1.1 gwybod terfynau eu hymarfer a phryd i geisio cyngor neu gyfeirio at weithiwr proffesiynol arall

1.2 cydnabod yr angen i reoli eu baich gwaith a'u hadnoddau eu hun yn effeithiol a gallu ymarfer yn unol â hynny

2 gallu ymarfer o fewn ffiniau cyfreithiol a moesegol eu proffesiwn

2.1 deall yr angen i weithredu er lles gorau defnyddwyr gwasanaeth ar bob adeg

2.2 deall yr hyn a fynnir ohonynt gan Gyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal

2.3 deall yr angen i barchu a chynnal hawliau, urddas, gwerthoedd ac ymreolaeth defnyddwyr gwasanaeth gan gynnwys eu rôl yn y broses ddiagnostig a therapiwtig ac wrth gynnal iechyd a lles

2.4 cydnabod y dylai cysylltiadau â defnyddwyr gwasanaeth gael eu seilio ar barch ac ymddiriedaeth gilyddol, a gallu cynnal safonau gofal uchel hyd yn oed mewn sefyllfaoedd o anghytundeb personol

2.5 gwybod am ddeddfwriaeth gyfredol sy'n gymwys i waitheu proffesiwn

2.6 deall pwysigrwydd caniatâd gwybodus a gallu ei sicrhau

2.7 gallu arfer dyletswydd ofal proffesiynol

3 gallu cynnal addasrwydd i ymarfer

3.1 deall yr angen i gynnal safonau uchel o ran ymddygiad personol a phroffesiynol

3.2 deall pwysigrwydd cynnal eu hiechyd eu hun

3.3 deall yr angen i gadw sgiliau a gwybodaeth yn gyfredol a phwysigrwydd dysgu drwy gydol eu gyrfa

4 gallu ymarfer fel gweithiwr proffesiynol ymreolaethol, gan arfer eu barn broffesiynol eu hun

4.1 gallu asesu sefyllfa broffesiynol, pennu natur a difrifoldeb y broblem a galw ar yr wybodaeth a'r profiad angenrheidiol i ymdrin â'r broblem

4.2 gallu gwneud penderfyniadau rhesymedig i gychwyn, parhau, addasu neu atal triniaeth neu ddefnydd technegau neu weithredoedd, a chofnodi'r penderfyniadau a'r rhesymu yn briodol

4.3 gallu mynd ati i ddatrys problemau a gallu ymarfer menter bersonol

4.4 cydnabod eu bod yn bersonol gyfrifol am eu penderfyniadau a rhaid gallu eu cyfiawnhau

4.5 gallu gwneud a derbyn atgyfeiriadau priodol

4.6 deall pwysigrwydd cymryd rhan mewn hyfforddiant, goruchwyliaeth a mentora

5 bod yn ymwybodol o effaith diwylliant, cydraddoldeb, ac amrywiaeth ar ymarfer

5.1 deall y gofyniad i addasu ymarfer i fodloni anghenion grwpiau ac unigolion

5.2 deall cyd-destun lleol penodol ymarfer, gan gynnwys amrywiaeth sosio-ddiwylliannol y gymuned

5.3 cydnabod y materion amgylcheddol sosio-ddiwylliannol sy'n dylanwadu ar y cyd-destun y mae pobl yn byw ac yn gweithio ynddo

5.4 cydnabod effaith anghydraddoldeb, tlodi, allgáu, hunaniaeth, gwahaniaeth cymdeithasol ac amrywiaeth ar berfformiad galwedigaethol

6 gallu ymarfer mewn ffordd nad yw'n gwahaniaethu

7 deall pwysigrwydd cyfrinachedd a gallu ei gadw

7.1 bod yn ymwybodol o derfynau'r cysyniad o gyfrinachedd

7.2 deall egwyddorion rheoli gwybodaeth a bod yn ymwybodol o ddefnydd diogel ac effeithiol gwybodaeth iechyd a gofal cymdeithasol

7.3 gallu cydnabod ac ymateb yn briodol i sefyllfaoedd lle mae angen rhannu gwybodaeth er mwyn diogelu defnyddwyr gwasanaeth neu'r cyhoedd ehangach

8 gallu cyfathrebu'n effeithiol

8.1 gallu dangos sgiliau llafar a di-eiriau effeithiol a phriodol wrth gyfathrebu gwybodaeth, cyngor, cyfarwyddyd, a barn broffesiynol i ddefnyddwyr gwasanaeth, cydweithwyr ac eraill

8.2 gallu cyfathrebu yn Saesneg i'r safon sy'n cyfateb i lefel 7 y System Ryngwladol Profi Saesneg, heb unrhyw elfen o dan 6.5¹

8.3 deall sut mae sgiliau cyfathrebu yn effeithio ar asesu ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a sut dylid addasu'r dull cyfathrebu i ymdrin â ffactorau fel oedran, gallu, gallu dysgu a gallu corfforol, a'u cymryd i ystyriaeth

¹ Mae'r System Ryngwladol Profi Saesneg (IELTS) yn profi cymhwysedd yn yr iaith Saesneg. Rhaid i ymgeiswyr sydd wedi cymhwyso tu allan i'r Deyrnas Unedig, sydd heb Saesneg yn iaith gyntaf ac nad ydynt yn ddinasyddion gwlad o fewn Ardal Economaidd Ewrop (AEE) neu'r Swistir, ddarparu tystiolaeth eu bod wedi cyrraedd y safon angenrheidiol. Ewch i'n gwefan am ragor o wybodaeth.

8.4 gallu dewis ffurfiau cyfathrebu llafar a di-eiriau, symud rhyngddynt, a'u defnyddio'n briodol gyda defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr ac eraill

8.5 bod yn ymwybodol o nodweddion a chanlyniadau cyfathrebu llafar a di-eiriau a sut mae ffactorau fel oedran, diwylliant, ethnigrwydd, rhyw, statws sosio-economaidd a chredoau ysbrydol neu grefyddol yn gallu effeithio ar y rhain

8.6 deall yr angen i roi'r wybodaeth angenrheidiol i ddefnyddwyr gwasanaeth neu bobl sy'n gweithredu ar eu rhan i'w galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus

8.7 deall yr angen i gynorthwyo anghenion cyfathrebu defnyddwyr gwasanaeth fel drwy ddefnydd priodol cyfieithydd, lle bynnag y bo modd

8.8 cydnabod yr angen i ddefnyddio sgiliau rhyngpersonol i annog cyfranogiad gan ddefnyddwyr gwasanaeth

8.9 gallu gwrandao ar naratif galwedigaethol defnyddiwr gwasanaeth a dadansoddi'r cynnwys er mwyn cynllunio at y dyfodol

8.10 gallu deall, drwy gyfweid a thrafodaeth personol, gwerthoedd, credoau a diddordebau defnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd a'u gofalwyr

9 gallu gweithio'n briodol gydag eraill

9.1 gallu gweithio, lle bo'n briodol, mewn partneriaeth â defnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr proffesiynol eraill, staff cymorth ac eraill

9.2 deall yr angen i feithrin a chynnal cysylltiadau proffesiynol fel ymarferwr annibynnol ac ar y cyd fel aelod o dîm

9.3 deall yr angen i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr wrth gynllunio a gwerthuso diagnosteg, triniaethau ac ymyriadau i fodloni eu hanghenion a'u nodau

9.4 gallu cyfrannu'n effeithiol at waith a wneir fel rhan o dîm aml-ddisgyblaeth

9.5 deall yr angen i weithio gyda'r sawl sy'n darparu gwasanaethau o fewn ac ar draws sectorau gwahanol

9.6 deall yr angen i fabwysiadu ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr gwasanaeth a sefydlu cysylltiadau proffesiynol priodol er mwyn ysgogi a chynnwys y defnyddiwr gwasanaeth mewn galwedigaethystyrlon

9.7 deall gwerth galluogi a grymuso defnyddwyr gwasanaeth gyda'r nod o wella eu mynediad i bob gwasanaeth a phob cyfle sydd ar gael iddynt

9.8 deall dynameg a rolau grŵp, a gallu hwyluso gwaith grŵp, er mwyn uchafu cefnogaeth, dysgu a newid o fewn grwpiau a chymunedau

9.9 deall yr angen i fanteisio i'r eithaf, lle bo'n briodol, ar y ddynameg o fewn grwpiau a chymunedau er mwyn harneisio'r ysgogiadau a chyfranogiad gweithgar aelodau

9.10 gallu gweithio mewn partneriaeth briodol â defnyddwyr gwasanaeth er mwyn gwerthuso effeithiorwydd ymyrraeth therapi galwedigaethol

10 gallu cynnal cofnodion yn briodol

10.1 gallu cadw cofnodion cywir, cynhwysfawr a dealladwy yn unol â deddfwriaeth, protocolau a chanllawiau perthnasol

10.2 cydnabod yr angen i reoli cofnodion a'r holl wybodaeth arall yn unol â deddfwriaeth, protocolau a chanllawiau perthnasol

11 gallu myfyrio ar ymarfer a'i adolygu

11.1 deall gwerth myfyrio ar ymarfer a'r angen i gofnodi canlyniad y cyfryw fyfyrir

11.2 cydnabod gwerth cynadleddau achos, goruchwyliaeth a dulliau eraill o fyfyrir ar ymarfer a'i adolygu

11.3 gallu cydnabod potensial therapi galwedigaethol mewn meysydd ymarfer newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg

12 gallu sicrhau ansawdd eu hymarfer

12.1 gallu ymgymryd ag ymarfer ar sail tystiolaeth, gwerthuso ymarfer yn systemataidd a chymryd rhan mewn gweithdrefnau archwilio

12.2 gallu casglu gwybodaeth, gangynnwys data ansoddol a meintiol, sy'n helpu i werthuso ymatebion defnyddwyr gwasanaeth i'w gofal

12.3 bod yn ymwybodol o rôl archwilio ac adolygu mewn ymdrin ag ansawdd, gan gynnwys rheoli ansawdd, sicrhau ansawdd a defnydd mesurau deilliannau priodol

12.4 gallu cynnal llwybr archwilio effeithiol a gweithio tuag at welliant cyson

12.5 bod yn ymwybodol o raglenni sicrhau ansawdd, a gallu cymryd rhan ynddynt, lle bo'n briodol

12.6 gallu gwerthuso cynlluniau ymyrraeth gan ddefnyddio mesurau deilliant cydnabyddedig a diwygio'r cynlluniau yn ôl yr angen ar y cyd â'r defnyddiwr gwasanaeth

12.7 cydnabod yr angen i fonitro a gwerthuso ansawdd ymarfer a gwerth cyfrannu at greu data at ddibenion sicrhau ansawdd a rhaglenni gwella

13 deall cysyniadau allweddol y sylfaen wybodaeth sy'n berthnasol i'w proffesiwn

13.1 deall a gallu cymhwyso cysyniadau damcaniaethol sy'n sail i therapi galwedigaethol, yn benodol natur alwedigaethol bodau dynol a sut maent yn gweithredu mewn gweithgareddau bob dydd

13.2 deall effaith chamweithrediad galwedigaethol am amddifadedd ar unigolion, teuluoedd, grwpiau a chymunedau a chydabod pwysigrwydd adfer a hwyluso cyfleoedd gyda'r nod o gyflawni iechyd galwedigaethol da

13.3 gallu deall a dadansoddi gweithgarwch a galwedigaeth, eu perthynas ag iechyd, lles a gweithrediad a'u heffaith arnynt

13.4 deall sylfaenddamcaniaethol asesu ac ymyrryd, a'r amrywiaetho ddulliau o'u gwneud

13.5 deall yr angen i nodi ac asesu anghenion a phroblemau galwedigaethol, corfforol, seicolegol, diwylliannol ac amgylcheddol defnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd a gofalwyr

13.6 bod yn ymwybodol o bolisiâu a gwasanaethau cymdeithasol, amgylcheddol a rhai cysylltiedig â gwaith a'u heffaith ar anghenion dynol o fewn cymdeithas amrywiol

13.7 bod yn ymwybodol o egwyddorion a chymwysiadau holi gwyddonol, gan gynnwys gwerthuso effeithlonrwydd triniaeth a'r broses ymchwilio

13.8 cydnabod gwerth amrywiaeth a chymhlethdod ymddygiad dynol trwy archwilio gwahanol safbwyntiau corfforol, seicolegol, amgylcheddol, cymdeithasol, emosiynol ac ysbrydol

13.9 bod yn ymwybodol o wreiddiau a datblygiad therapi galwedigaethol, gan gynnwys esblygiad y proffesiwn tuag at y pwyslais presennol ar ymreolaeth a grymuso unigolion, grwpiau a chymunedau

13.10 deall defnydd y fframwaith athronyddol presennol ar gyfer therapi galwedigaethol sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr gwasanaeth a'r model bio-seicogymdeithasol

13.11 deall strwythur a gweithrediad y corff dynol, ynghyd â gwybodaeth am iechyd, clefyd, anhwylder a chamweithrediad sy'n berthnasol i'w proffesiwn

13.12 deall y cysyniad o arweinyddiaeth a sut mae ei gymhwyso i ymarfer

13.13 cydnabod rôl proffesiynau eraill mewn iechyd a gofal cymdeithasol

13.14 deall strwythur a gweithrediad gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU

14 gallu manteisio ar wybodaeth a sgiliau priodol i lywio ymarfer

14.1 gallu newid eu hymarfer yn ôl yr angen i gymryd i ystyriaeth datblygiadau newydd neu gyd-destunau newidiol

14.2 gallu cynnal gweithdrefnau, triniaeth, therapi neu gamau diagnostig neu fonitro priodol eraill, yn ddiogel ac yn effeithiol

14.3 gallu ymgymryd ag asesiad trylwyr, sensitif a manwl, gan ddefnyddio technegau ac offer priodol, a'i gofnodi

14.4 gallu casglu a defnyddio gwybodaeth briodol

14.5 gallu cynnal neu drefnu ymchwiliadau fel y bo'n briodol

14.6 gallu dethol a defnyddio technegau asesu priodol

14.7 deall yr angen i ystyried asesiado anghenion iechyd, gofal cymdeithasol, cyflogaeth a dysgu defnyddwyr gwasanaeth

14.8 gallu dethol a defnyddio offer asesu perthnasol i nodi anghenion perfformiad galwedigaethol

14.9 gallu dethol a defnyddio asesiadau safonedig ac ansafonedig yn briodol i gasglu gwybodaeth am berfformiad galwedigaethol defnyddwyr gwasanaeth, gangymryd y cyd-destun amgylcheddol i ystyriaeth

14.10 gallu defnyddio arsylwi i gasglu gwybodaeth am alluoedd gweithredol defnyddwyr gwasanaeth

14.11 gallu dadansoddi'r wybodaeth a gesglir a'i gwerthuso'n feirniadol

14.12 gallu dangos ymagwedd resymegol a systemataidd at ddatrys problemau

14.13 gallu defnyddio ymchwil, rhesymu a sgiliau datrys problemau i benderfynu ar gamau priodol

14.14 gallu llunio cynlluniau gofal neu gynlluniau rheoli achos penodol a phriodol, a phennu amserlenni

14.15 deall yr angen i gytuno nodau a blaenoriaethau ymyrraeth mewn perthynas ag anghenion galwedigaethol mewn partneriaeth â defnyddwyr gwasanaeth, gan seilio'r cyfryw benderfyniadau ar ganlyniadau asesiad

14.16 gallu dethol fel y bo'n briodol, y galwedigaethau a'r gweithgareddau penodol i'w defnyddio yn gyfryngau therapiwtig, gan gymryd i ystyriaeth anghenion therapiwtig arbennig defnyddwyr gwasanaeth

14.17 gallu deall a defnyddio'r gwyddorau perthnasol a damcaniaethau, fframweithiau a chysyniadau sefydledig therapi galwedigaethol

14.18 bod yn ymwybodol o'r amrediad llawn o galwedigaethau a gweithgareddau a ddefnyddir wrth ymyrryd a sut dylai'r rhain adlewyrchu anghenion galwedigaethol yr unigolyn

14.19 gallu dadansoddi, datblygu neu addasu cyfryngau ac amgylcheddau therapiwtig i ddefnyddwyr gwasanaeth, i adeiladu ar eu galluoedd a gwella eu perfformiad galwedigaethol

14.20 gwybod sut i fodloni anghenion cymdeithasol, seicolegol ac anghenion galwedigaethol ar sail iechyd corfforol defnyddwyr gwasanaeth ar draws amrediad o feysydd ymarfer

14.21 gallu defnyddio gwybodaeth a thechnolegau cyfathrebu sy'n briodol i'w hymarfer

14.22 cydnabod gwerth ymchwil yng ngwerthusiad beirniadol ymarfer

14.23 bod yn ymwybodol o amrediad o fethodolegau ymchwil

14.24 gallu gwerthuso ymchwil a thystiolaeth arall i lywio eu hymarfer eu hun

15 deall yr angen i sefydlu a chynnal amgylchedd ymarfer diogel

15.1 deall yr angen i gynnal diogelwch defnyddwyr gwasanaeth a'r sawl sy'n ymwneud â'u gofal

15.2 bod yn ymwybodol o ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch perthnasol, ac unrhyw bolisiâu a gweithdrefnau diogelwch perthnasol sydd mewn grym yn y gweithle, fel adrodd digwyddiadau, a gallu gweithredu yn unol â'r rhain

15.3 gallu gweithio'n ddiogel, gan gynnwys gallu dewis dulliau priodol o reoli peryglon a thechnegau rheoli, lleihau neu ddileu risg, mewn ffordd ddiogel ac yn unol â deddfwriaeth iechyd a diogelwch

15.4 gallu dewis offer amddiffynnol personol priodol a'i ddefnyddio'n gywir

15.5 gallu sefydlu amgylcheddau diogel ar gyfer ymarfer, sy'n lleihau risgiau i ddefnyddwyr gwasanaeth, y sawl sy'n eu trin ac eraill, gan gynnwys defnydd rheoli peryglon ac yn arbennig rheoli heintiad

15.6 gwybod a gallu cymhwyso technegau symud a thrafod priodol

Park House
184-6 Kennington Park Road
Llundain SE11 4BU

ffôn +44 (0)845 300 6184
ffacs +44 (0)20 7820 9684
www.hcpc-uk.org

**Mae'r ddogfen hon ar gael mewn
fformatau amgen ac yn Saesneg
drwy wneud cais.
Ffoniwch +44 (0)20 7840 9806
neu e-bostiwch publications@hcpc-uk.org**